ATODLEN 1 rheoliadau 4 a 9

Y LLEIAF O'R GOFYNION AR GYFER MAPIO Sŵn STRATEGOL

**Dehongli**

**1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "grid" ("*grid*") yw grid o bwyntiau fector—

(a) a chanddynt fylchau 10 metr wrth 10 metr rhyngddynt,

(b) a chanddynt gyfeiriad gofodol i system gyfeirio'r Grid Cenedlaethol Prydeinig a ddefnyddir gan yr Arolwg Ordnans, a hynny fel pâr o gyfanrifau i ddangos mewn metrau Ddwyreiniau ac yna Ogleddiadau o'r tarddiad, ac

(c) sydd wedi'u halinio â fertigau 10 metr system gyfeirio'r Grid Cenedlaethol Prydeinig a ddefnyddir gan yr Arolwg Ordnans a hynny fel bod y cyfeiriadau'n diweddu â'r Rhif sero;

ystyr "y gellir eu golygu" ("*editable*") yw eu bod ar fformat sy'n caniatáu cynhyrchu'n electronig (heb fod angen trin y fformat)—

(a) data Rhif iadol mewn tablau, a

(b) plotiau graffigol,

er mwyn arddangos yr wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 1.5, 1.6, 1.7, 2.5, 2.6 a 2.7 o Atodiad VI i'r Gyfarwyddeb.

**Gofynion cyffredinol ar gyfer mapiau sŵn strategol**

**2.**—(1) Rhaid i fapiau sŵn strategol a'u diwygiadau—

(a) bodloni'r lleiaf o'r gofynion a osodir yn Atodiad IV i'r Gyfarwyddeb; a

(b) bod yn glir ac yn ddealladwy.

(2) Wrth gymhwyso paragraff 1(a) mae unrhyw gyfeiriad yn Atodiad IV i'r Gyfarwyddeb at—

(a) Erthygl 8 o'r Gyfarwyddeb i'w ystyried yn gyfeiriad at reoliadau 15, 17 ac 19 o'r Rheoliadau hyn;

(b) Erthygl 9 o'r Gyfarwyddeb i'w ystyried yn gyfeiriad at reoliad 29 o'r Rheoliadau hyn.

**Gofynion ar gyfer mapiau sŵn strategol i grynodrefi**

**3.**—(1) Dim ond i'r canlynol y mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) map sŵn strategol a wnaed o dan reoliad 7(1)(a), 7(2)(a), 12(1) neu 12(2); neu

(b) diwygiad o'r cyfryw fap sŵn strategol.

(2) Rhaid i fapiau sŵn strategol—

(a) cynnwys (ar fformat electronig) yr wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 1.1 i 1.4 yn gynhwysol o Atodiad VI i'r Gyfarwyddeb; a

(b) cynnwys ar fformat electronig ddata Rhif iadol y gellir eu golygu sy'n cynnwys y gwerthoedd Lden, Lnight a'r dangosyddion sŵn atodol ar grid.

**Gofynion ar gyfer mapiau sŵn strategol i brif ffyrdd, prif reilffyrdd a phrif feysydd awyr**

**4.**—(1) Dim ond i'r canlynol y mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) unrhyw fap sŵn strategol a wnaed o dan—

(i) rheoliad 7(1)(b) i (ch),

(ii) rheoliad 7(2)(b) i (ch),

(iii) rheoliad 11(2); neu

(b) unrhyw ddiwygiad o'r cyfryw fap.

(2) Rhaid i fapiau sŵn strategol—

(a) cynnwys yr wybodaeth (ar fformat electronig) a ddisgrifir ym mharagraffau 2.1 i 2.4 yn gynhwysol o Atodiad VI i'r Gyfarwyddeb; a

(b) cynnwys ar fformat electronig ddata Rhif iadol y gellir eu golygu sy'n cynnwys gwerthoedd Lden, Lnight a'r dangosyddion sŵn atodol ar grid.

ATODLEN 2 — rheoliad 4

DULLIAU ASESU AR GYFER DANGOSYDDION Sŵn

**Rhagarweiniad**

**1.**—(1) Rhaid canfod gwerthoedd Lden, Lnight a'r dangosyddion sŵn atodol drwy gyfrifiannu (yn y safle asesu).

(2) Yn yr Atodlen hon—

ystyr “Argymhelliad” (“*Recommendation*”) yw Argymhelliad y Comisiwn 2003/613/EC dyddiedig 6 Awst 2003 ynghylch y canllawiau ar ddulliau cyfrifiannu interim diwygiedig ar gyfer sŵn diwydiannol, sŵn awyrennau, sŵn traffig ffyrdd a sŵn rheilffyrdd, a data gollyngiadau perthynol(**1**);

ystyr “safle asesu” (“*assessment position*”) yw'r uchder asesu ym mharagraff 7 o Atodiad IV i'r Gyfarwyddeb.

**Dull asesu ar gyfer dangosyddion sŵn traffig ffyrdd**

**2.** Ar gyfer dangosyddion traffig ffyrdd rhaid defnyddio'r dull asesu “Calculation of road traffic noise” (Yr Adran Drafnidiaeth, 7 Mehefin 1988, Y Llyfrfa)(**2**) wedi'i addasu gan ddefnyddio'r adroddiad “Method for converting the UK road traffic noise index LA10,18h to the EU noise indeces for road noise mapping” (DEFRA, 24 Ionawr 2006)(**3**).

**Dull asesu ar gyfer dangosyddion swn rheilffyrdd**

**3.** Ar gyfer dangosyddion sŵn rheilffyrdd rhaid defnyddio'r dull asesu “Calculation of railway noise” (Yr Adran Drafnidiaeth, 13 Gorffennaf 1995, Y Llyfrfa)(**4**) wedi'i addasu fel a welir yn Ffigur 6.5 yn yr adroddiad “Rail and wheel roughness – implications for noise mapping based on the Calculation of Railway Noise procedure” (DEFRA, Mawrth 2004)(**5**).

(**1**) O.J. Rhif L212, 22.8.2003, t. 49.
(**2**) ISBN 0115508473.
(**3**) Paratowyd gan TRL Limited a Casella Stanger, Cyfeirnod y Ddogfen st/05/91/AGG04442.
(**4**) ISBN 0115517545.
(**5**) Paratowyd gan AEA Technology plc, Cyfeirnod y Ddogfen: AEATR-PC&E-2003-002.

**Dulliau asesu ar gyfer dangosyddion sŵn awyrennau**

**4.** Ar gyfer sŵn awyrennau rhaid defnyddio'r dull asesu “Report on Standard Method of Computing Noise Contours around Civil Airports” (Ailargraffiad, Y Gynhadledd Ewropeaidd ar Hedfan Sifil, 2-3 Gorffennaf 1997)(**6**) a hynny'n unol â pharagraff 2.4 o'r Atodiad i'r Argymhelliad.

**Dulliau asesu ar gyfer dangosyddion sŵn diwydiannol a dangosyddion sŵn porthladdoedd**

**5.**—(1) Ar gyfer dangosyddion sŵn diwydiannol a dangosyddion sŵn porthladdoedd rhaid defnyddio'r dull lledaenu o asesu a ddisgrifir yn “ISO 9613-2:1996 Acoustics – Attenuation of sound during propagation outdoors – Part 2: General method of calculation” (International Standards Organisation, 1996) a hynny'n unol â pharagraff 2.5 o'r Atodiad i'r Argymhelliad.

(2) Gellir cael data gollyngiadau sŵn addas (data mewnbwn) ar gyfer “ISO 9613-2:1996 Acoustics – Attenuation of sound during propagation outdoors – Part 2: General method of calculation” naill ai o fesuriadau a wneir yn unol ag un o'r dulliau canlynol:

(a) “Acoustics. Determination of sound power levels of multisource industrial plants for evaluation of sound pressure levels in the environment. Engineering method” (BS ISO 8297:1994, Y Sefydliad Safonau Prydeinig);

(b) “Acoustics. Determination of sound power levels of noise sources using sound pressure. Engineering method in an essentially free field over a reflecting plane” (BS EN ISO 3744: 1995, Y Sefydliad Safonau Prydeinig);

(c) “Acoustics. Determination of sound power levels of noise sources using sound pressure. Survey method using an enveloping measurement surface over a reflecting plane” (BS EN ISO 3746:1996, Y Sefydliad Safonau Prydeinig),

neu drwy ddefnyddio Arweinlyfr 10 o “Good Practice Guide for Strategic Noise Mapping and the Production of Associated Data on Noise Exposure Version 2, Position Paper Final Draft” (Asesiad Gweithgor y Comisiwn Ewropeaidd o Fod o Fewn Clyw i Sŵn, 13 Ionawr 2006).

ATODLEN 3 rheoliad 4

DANGOSYDDION Sŵn ATODOL

**Dehongli**

**1.** Yn yr Atodlen hon—

“LA10, 18h” yw'r lefel sŵn cymedr Rhif yddol mewn dB(A) yr aed y tu hwnt iddi am 10% o bob awr dros y cyfnod 06:00 – 24:00 o'r gloch;

“LAeq, 16h” yw'r lefel sŵn parhaus cyfatebol mewn dB(A) sydd, dros y cyfnod 07:00 – 23:00 o'r gloch, yn cynnwys yr un ynni sŵn â'r gwir sŵn amrywiol a oedd i'w glywed yn y cyfnod hwnnw;

“LAeq, 18h” yw'r lefel sŵn parhaus cyfatebol mewn dB(A) sydd, dros y cyfnod 06:00 – 24:00 o'r gloch, yn cynnwys yr un egni sŵn â'r gwir sŵn amrywiol a oedd i'w glywed yn y cyfnod hwnnw;

“LAeq, 6h” yw'r lefel sŵn parhaus cyfatebol mewn dB(A) sydd, dros y cyfnod 24:00 – 06:00 o'r gloch, yn cynnwys yr un egni sŵn â'r gwir sŵn amrywiol a oedd i'w glywed yn y cyfnod hwnnw.

(**6**) Mabwysiadwyd gan Unfed Cyfarfod Llawn ar Hugain ECAC, Cyfeirnod y Ddogfen: ECAC.CEAC Doc. 29.

**Swn Traffig Ffyrdd**

**2.** Y dangosyddion sŵn atodol mewn perthynas â sŵn traffig ffyrdd yw

(a) LA10,18h;

(b) LAeq, 16h;

(c) Lday; ac

(ch) Levening.

**Sŵn Rheilffyrdd**

**3.** Y dangosyddion sŵn atodol mewn perthynas â sŵn rheilffyrdd yw—

(a) LAeq, 16h;

(b) LAeq, 18h;

(c) LAeq,6h;

(ch) Lday; a

(d) Levening.

**Sŵn Awyrennau**

**4.** Y dangosyddion sŵn atodol mewn perthynas â sŵn awyrennau yw—

(a) LAeq, 16h;

(b) Lday; ac

(c) Levening.

**Sŵn Diwydiannol a Sŵn Porthladdoedd**

**5.** Y dangosyddion sŵn atodol mewn perthynas â sŵn diwydiannol a sŵn porthladdoedd yw—

(a) LAeq, 16h;

(b) Lday; a

(c) Levening.

ATODLEN 4 — rheoliad 15

Y LLEIAF O OFYNION Y CYNLLUNIAU GWEITHREDU

**Cyffredinol**

**1.**—(1) Rhaid i gynllun gweithredu—

(a) bodloni'r lleiaf o'r gofynion yn Atodiad V i'r Gyfarwyddeb; a

(b) cynnwys crynodeb, heb fod yn fwy nad deg tudalen o hyd, yn cwmpasu pob un o'r agweddau pwysig y cyfeirir atynt yn Atodiad V i'r Gyfarwyddeb.

(2) Wrth gymhwyso paragraff (1) mae unrhyw gyfeiriad yn Atodiad V i'r Gyfarwyddeb at—

(a) Erthygl 5 o'r Gyfarwyddeb i'w ystyried yn gyfeiriad at reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn;

(b) Erthygl 8(7) o'r Gyfarwyddeb i'w ystyried yn gyfeiriad at reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn.